# papur priordy




## *CYFRIF Y BENDITHION*




**PAN WYT AR FÔR BYWYD AC O DON I DON,**
**PAN FO OFNI SUDDO YN TRISTÁU DY FRON,**
**CYFRIF Y BENDITHION, BOB YN UN AC UN,**
**SYNNU WNEI AT GYMAINT A WNAETH DUW I DDYN.**

*J Oatman (cyf. T G Thomas, Tre-boeth)*
*Y Caniedydd 834*

*Dewiswyd gan Eurwen Jones,  Gweler y tu mewn am y rheswm*

Rhifyn 299
PAPUR EBRILL 2017

# GAIR GAN EIN GWEINIDOG

## PASG

**RYDYN** ni'r Cymry'n rhai da am siarad â'n dwylo! Mae'n anodd iawn ein hatal rhag defnyddio'n dwylo i lywio'n sgwrs. Nid yw ein geiriau, ar eu pen eu hun, fel pe baent yn ddigon. Rhaid wrth symud ein dwylo a'n breichiau fel melinau gwynt er mwyn creu'r effaith cywir wrth sgwrsio! Fedrai i fyth â dweud dim, oherwydd prin yw'r pregethwyr sy'n traddodi pregeth heb i'w dwylo fynd i hwyl!

Ond wrth gwrs, mae rhai'n dibynnu'n llwyr ar eu dwylo wrth sgwrsio, sef y sawl sydd yn gwbl fyddar. Defnyddiant eu dwylo i arwyddo - sef siarad â'i dwylo. Mae'r ddawn hon wedi fy rhyfeddu erioed.


Cefais y profiad beth amser yn ôl o fod mewn oedfa lle roedd gwraig yn sefyll ym mlaen y Capel yn arwyddo'r bregeth wrth i'r pregethwr draddodi. Roedd bysedd a dwylo'r wraig yn creu patrymau diddorol fesul gair, ac er nad oeddwn yn medru deall yr un arwydd, eto sylwais fod un yn arbennig yn cael ei ailadrodd dro ar ôl tro, pan fyddai'r pregethwr yn sôn am enw Iesu. Dyma holi'r wraig ar ddiwedd yr oedfa, a chael syndod o ddysgu bod gan bobl fyddar arwydd arbennig i ddynodi Iesu, ac mae'n ddiddorol nad arwydd o ogoniant nac arglwyddiaeth na grym ydy hwn. Yr hyn maen nhw'n ei wneud yw pwyntio at ganol cledrau eu dwy law yn eu tro, at greithiau Iesu.



Daw hyn â stori Tomos i'r meddwl. Tomos, nid nad oedd yn credu bod Iesu wedi'i gyfodi ond ei fod am brawf o hynny.

Un o eiriau mawr fy mam-gu (nad oedd ganddi lawer iawn o

Saesneg gyda llaw) oedd y gair *'confirmation'*! Pe bai hi'n digwydd clywed stori yn y pentref, ac yn ailadrodd yr hanes, fe fyddai hi'n siŵr o ddweud ar y diwedd '*ond sa i wedi cael confirmation cofiwch!'.*



Angen cadarnhad, *confirmation*, oedd ar Tomos. Cadarnhad bod ei Arglwydd yn fyw. Cafodd gadarnhad o weld ôl yr hoelion yn nghledrau dwy law Iesu.

Hyfryd yw meddwl bod y byddar yn pwyntio ar ganol cledrau eu dwy law, wrth enwi Iesu.



Yno mae creithiau Iesu, hyd yn oed ar ôl iddo gael ei atgyfodi o farwolaeth.

***PASG LLAWEN*** a bendithiol i chi i gyd.

.

**GWEDDI**



Arglwydd,
fel Tomos, fe fynnwn ninnau weld â'n
llygaid ôl yr hoelion.
Trugarha wrthym, o Dduw,
cod ni o'n hamheuon a'n digalondid,
i lawenydd y bywyd newydd
sydd yn atgyfodiad ein Harglwydd
Iesu Grist



**AMEN**

**CAPEL Y PRIORDY, CAERFYRDDIN**

## CYMANFA FAWR



## PANTYCELYN

**Nos Sul, 18 Mehefin 2017 am 7 o'r gloch**

**Cofio 300 mlwyddiant geni William Williams, Pantycelyn**

**Arweinydd**
**John S Davies**



**Unawdydd**
**Elin Llwyd**

***Rhaglen : £6 (drwy Peter a Meinir Hughes Griffiths)***



***Elw at Gronfa Organ Capel y Priordy.***

*Mae croeso i unrhyw rai gyfrannu at y Gronfa hon os ydynt yn dymuno. Byddai hynny'n cael ei werthfawrogi'n fawr.*

**Y TUDALEN BLAEN**

**RHESWM EURWEN JONES AM Y DEWIS**




**Cyfrif y Bendithion**
***Y Caniedydd (Rhif 450 / Emyn 834)***

**Roedd yr emyn hwn yn cael ei ganu mewn Cwrdd Plant a Phencwarter yn aml iawn yn ein 'Tŷ Cwrdd' – Ebeneser ar y Rhos (Rhos Cilybebyll). Canwyd fel unawd neu ddeuawd neu fel parti. Mae'n dal yn y cof.**

## BREINIOL WASANAETH

***FE*** fydd yna groeso mawr i ddeuddegfed cyfrol y Parchedig Maurice Loader o'r wasg - cyfrol gyfoethog sy'n haeddu gweld golau ddydd.




Cydnabyddir y gŵr hwn fel un o'n pregrethwyr mawr blaenaf ond cydnabyddwn ef hefyd fel ysgolhaig a gweinidog ffyddlon.

Mae'r gyfrol hon yn sicrhau lle'r Parchedig Maurice Loader fel llenor sy'n haeddu ein sylw - mae'n fardd, emynydd, ysgrifwr a hanesydd.

Cyfansoddwyd yr emynau a'r carolau yn ystod ei weinidogaeth, yn ymestyn o bum degau'r ganrif ddiwethaf tan ychydig flynyddoedd yn ôl. Er bod gan y Parchedig Maurice Loader ddiddordeb yn y Canu Plygain ers ei febyd, dechreuodd gyfansoddi Carolau Plygain pan ymddiddorodd Caradog Williams - un o'i aelodau yng Nghapel  Seion, Porth Tywyn - yn y traddodiad a chyfansoddi cerddoriaeth ar eu cyfer.



Mae'r ysgrifau'n amrywiol: rhai yn sôn am ei blentyndod yn Sir y Fflint; ceir ymdriniaeth â thafodiaith Gwŷr-y-Fe; allweddi i ddealltwriaeth lwyrach o'r Epistol at y Galatiaid; heb anghofio nifer o fyfyrdodau yn adlewyrchu ei safiad fel heddychwr.

Mae'r teitl  ***Breiniol Wasanaeth*** yn ddiddorol. Ystyr 'breiniol' yw 'wedi cael braint'. Cafodd y Parchedig Maurice Loader y fraint o wasanaethu

ei Arglwydd yn driw ac yn ffyddlon am drigain o flynyddoedd ac mae'r gyfrol hon yn gyfrwng i ninnau ymestyn a dyfnhau ein hadnabyddiaeth o'n Harglwydd, ac i'w wasanaethu yn llwyrach ac yn ufuddach.

***Lluniau: (a) Clawr y Gyfrol (b) Y Parchedig a Mrs Maurice Loader***

***Anfonwn ein cofion cynnes iawn at Y Parchedig Maurice Loader a'i briod a'r teulu a diolchwn yn fawr iawn am y gyfrol werthfawr hon.***

***Dyma fanylion llawn y gyfrol:***
***Breiniol Wasanaeth, Maurice Loader (Cymdeithas Emynau Cymru 2017):£6.50***

## APÊL MIS EBRILL


Dymunwn ddiolch i bawb yn y lle cyntaf am ymateb mor hael i Apêl Mis Mawrth drwy gyfrannu rhoddion ar gyfer y Lloches i Fenywod yn ein tref. Mwy am hyn y tro nesaf.

Ein hapêl am Fis Ebrill yw Banc Bwyd Caerfyrddin sydd yn cyflawni gwaith mor ardderchog yn diwallu anghenion lleol. Bydd blwch yn y Priordy ar gyfer derbyn ein rhoddion a diolch ymlaen llaw am bob cefnogaeth.

## AGOR Y GAIR YN Y GRAWYS
## CYFRES O ASTUDIAETHAU BEIBLAIDD

***dan arweiniad***

**Y Parchedigion Beti-Wyn James a Peter Cutts**
**DAU GYFARFOD YN WEDDILL**



**Boreau Mercher 5 a 12 Ebrill 2017**
**11 tan 12 o'r gloch**
**Canolfan yr Atom, Stryd y Brenin, Caerfyrddin**
**Manylion pellach: ☎01267 237696 / 236658**

***Noddir y Gyfres gan Raglen Datblygu Undeb yr Annibynwyr Cymraeg***

**Tudur Dylan Jones…**

## CYMDEITHAS Y CYMOD – CLEIF HARPWOOD



Roedd y Parrot ar Heol y Brenin yn llawn hyd yr ymylon nos Lun, Mawrth 13eg pan ddaeth Cleif Harpwood, ynghyd â Geraint Cynan, i roi ychydig o gefndir rhai o'r caneuon mae wedi bod yn eu perfformio ers bron i hanner canrif. Teitl y noson oedd 'Mistar Duw...', a chlywyd mai yma yng Nghaerfyrddin y cyfansoddwyd y gân honno.

Roedd Cleif yn fyfyriwr yng Ngholeg y Drindod o dan law cewri fel Carwyn James a Norah Isaac, ac un noson yn nhafarn y Ceffyl Du, roedd y teledu'n digwydd bod ymlaen. Roedd yn gyfnod rhyfel Fietnam, ac ar y sgrîn roedd erchyllterau'r rhyfel hwnnw'n fyw, ac un dyn yn cael ei holi ac yn dweud fod Duw wedi achub ei fywyd, '*I'll have to call him Mister from now on.*' Dyna lle cafodd Cleif y syniad am y gân.

Talodd deyrnged i'r diweddar Alwyn Samuel a hyfforddai barti cerdd dant yn Aberafan. Meddyliwch, parti cerdd dant yn cynnwys plant ysgol a theulu Richard Burton yn canu geiriau Ehedydd Iâl, *'Er nad yw 'nghnawd ond gwellt a'm hesgyrn ddim ond clai...!* Adroddwyd hefyd sut y daeth cân Edward H Dafis, Smo Fi Ishe Mynd, i fod. Roedd Cleif Harpwood a Dewi Pws wedi cael eu hanfon i dafarn yn Llandwrog yn ystod un o sesiynau recordio Edward H Dafis yn Stiwdio Sain gan eu bod yn amharu ar y recordio! Penderfynwyd mynd ati i gyfansoddi cân, a chefndir y gân oedd person ifanc yn dweud nad oedd eisiau mynd i ryfel. Roedd arferiad o roi pluen wen fel arwydd o sen i unrhyw un nad oedd eisiau ymuno yn y rhyfel mawr.

O gerdd dant i roc a rôl, cafwyd noson i'w chofio. Yn ogystal â chael ein diddanu, fe'n hatgoffwyd am waith diflino Cymdeithas y Cymod yn ceisio gweithio dros heddwch. Cyhoeddwyd fod yna wahoddiad cynnes i ymuno yn y brotest yn erbyn y Ffair Arfau sy'n digwydd ddiwedd y mis yng Nghaerdydd.

**AELODAU NEWYDD**
**DENNIS A RHIAN JONES**



**YMWELIAD PIP Á PHENCADLYS YR HEDDLU**
***Gweler yr adroddiad***



**Steffan Jones**….



## TAITH PIP I BENCADLYS YR HEDDLU YN LLANGYNNWR

***AR FORE*** Sul y 19eg o Fawrth, cafodd 13 o aelodau PIP y fraint a'r pleser o fynd ar daith i Bencadlys Heddlu Dyfed Powys.

Cawsom ein cyfarch gan y **Parchedig Tom Evans**, caplan yr heddlu, sydd wedi bod yn gwneud ei waith yn wirfoddol ers dros 5 mlynedd. Arweiniodd y grŵp i mewn i adeilad yr FCC, sef y *Force Communications Centre,* ac i mewn i un o'r ystafelloedd cyfarfod, lle cawsom gyflwyniad gan Beth, un o aelodau'r heddlu, ar wahanol elfennau o'r gwaith a gyflawnir yn y FCC. Syndod i bawb oedd clywed am yr amrywiaeth o ddyletswyddau oedd gan y staff, yn cynnwys derbyn galwadau gan y cyhoedd ac asiantaethau eraill (ambiwlans, tân, y cyngor, Intercom ac ati), cofnodi gwybodaeth am y galwadau hynny ar fas data'r heddlu, sef STORM, anfon swyddogion heddlu i ddigwyddiadau amrywiol, i enwi ond rhai.



Roedd yn ddiddorol clywed ffeithiau am yr heddlu, megis bod Heddlu Dyfed Powys yn gwasanaethu'r arwynebedd daearyddol mwyaf yng Nghymru a Lloegr, a'r ail fwyaf ym Mhrydain. Serch hynny, dim ond 1200 o swyddogion sy'n cynnal yr ardal enfawr yma, sef y trydydd lleiaf yn y Deyrnas Unedig. Diddorol hefyd oedd clywed ffeithiau am yr FCC, adran nad oedd llawer ohonom yn gwybod fawr ddim amdani. A wyddoch chi fod yr FCC yn derbyn tua mil o alwadau ffôn bob dydd yn ystod yr wythnos? Neu 500/600 dros y penwythnos? Maen nhw'n ateb galwadau 999 o fewn 10 eiliad a galwadau 101 llai difrifol o fewn 45 eiliad.



Buom yn ffodus wedyn o weld ystafell yr FCC trwy ffenestri un ffordd, er na chawsom fynediad i'r ystafell ei hun. Ar un ochr yr ystafell, roedd y staff yn derbyn galwadau ac yn anfon y manylion at y staff ar ochr arall yr ystafell. Roedden nhw wedyn yn cofnodi'r wybodaeth ar STORM, ac yn anfon swyddogion heddlu allan yn ôl y galw. Roedd yr holl anfon  negeseuon yn fy atgoffa o Beti-Wyn a'i e-byst i gyd!

Nôl â ni wedyn i'r ystafell wreiddiol, lle cawsom hanes Roger a'i swydd fel swyddog traffig y ffyrdd. Wrth gyflawni'i waith mae'n rhaid iddo wisgo fest arbennig sy'n ddigon i atal ergydion o'r rhan fwyaf o ddrylliau a thrywaniad cyllell hefyd. Diddorol oedd cael gwybod am yr holl bethau mae'n ei gario ar ei fest, megis cyffion, gwn taser, cit cymorth cyntaf, baton, chwistrellydd pupur i enwi ond rhai. Cafodd Elis y profiad o gael ei ddwylo mewn cyffion a'i goesau wedi'u rhwymo, a phrin y gallai symud wedyn. Eglurodd Roger hefyd effeithiau'r gwn taser, sy'n rhoi sioc drydanol bwerus. Er nad yw'n effeithio ar yr organau yn y corff, mae'r cyhyrau'n mynd yn dynn iawn ac yn achosi i'r person gwympo i'r llawr yn syth.




I orffen ein hymweliad, cawsom ein harwain allan i weld car heddlu Roger. Yn debyg i'r fest, cawsom ein rhyfeddu gyda'r holl bethau oedd yng nghist y car, yn cynnwys brwsh, rhaw, cit cymorth cyntaf, prawf cyffuriau, 'stinger' (i ffrwydro teiars ceir) a mwy. Cafodd Ifan dro ar daflu'r 'stinger', ond mae'n amlwg fod angen rhagor o ymarfer arno i berffeithio'r sgil! Yn ôl Roger, mae'n rhaid iddo gael prawf bob 6 mis er mwyn sicrhau bod ei sgiliau gyrru yn cyrraedd y safon angenrheidiol er mwyn cadw ei swydd fel swyddog traffig y ffyrdd. Tybed sawl un ohonoch chi fyddai'n hoffi cael prawf gyrru bob 6 mis? Dim llawer, rwy'n siŵr!




I Orffen,  hoffwn ddiolch yn fawr iawn i'r Parch Tom Evans a Beti-Wyn am drefnu'r daith ac i'r rhieni a aeth â ni draw yn eu ceir. Roedd yn fore diddorol iawn, ac rwy'n siŵr bod pawb wedi mwynhau a dysgu llawer

Nansi Hayes…

# DYDD GWEDDI BYD-EANG Y CHWIORYDD 2017



***AR DDYDD GWENER*** 3 Mawrth cynhaliwyd y gwasanaeth blynyddol ar gyfer Dydd Gweddi Chwiorydd y Byd yng Nghapel y Wesleaid yng nghanol y dref.




Cymerwyd rhan gan aelodau Capeli ac Eglwysi Cymraeg y dref a'r cyffiniau, yn cynnwys Y Tabernacl, Y Priordy, Sant Ioan, Heol Awst, Y Babell, Elim a Llanllwch.

Paratowyd y gwasanaeth eleni gan chwiorydd Cristnogol Ynysoedd y Philipîn, dan y testun "Ydw i'n Anheg â Thi"?, wedi'i seilio ar Efengyl Mathew 20: 1-6, sef hanes y perchennog tir, a'r gweithwyr a gyflogodd yn ei winllan. Bu rhai ohonynt yn grwgnach ar ddiwedd y dydd am fod pob un wedi cael yr un faint o arian, y rhai oedd wedi gweithio ar hyd y dydd ac eraill ond wedi gweithio rhyw awr ar y diwedd. Ateb y cyflogwr oedd *"Nid wyf wedi gwneud cam â thi, onid am ddeg ceiniog y cytunaist â mi; rwy'n dewis rhoi i'r olaf fel i tithau".* Felly y bydd y rhai olaf yn flaenaf a'r rhai blaenaf yn olaf.



Lyn Cutts gymerodd ran yr Arweinydd, gydag Olga Williams yn gwasanaethu wrth yr organ, a'r Parchedig Beti-Wyn James

yng ngofal y peirianwaith. Joan Thomas oedd yn gyfrifol am ddosbarthu'r gwaith i'r gwahanol enwadau.

Sefydlwyd y Dydd Gweddi yn y flwyddyn 1933, ac mae'n hyfryd meddwl fod ton o weddi yn mynd dros y byd yn flynyddol gan ddechrau yn Samoa.

***GWRAGEDD*** Swrinam fydd yn paratoi'r gwasanaeth ar gyfer y flwyddyn nesaf, a'r testun fydd "Mae Cread Duw yn Dda i Gyd"

# DIOLCH YN FAWR

***Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad***

## DAVID GRAVELL

**Cydweli**

***at gostau cyhoeddi'r Papur y mis hwn***

**CWRDD DIACONIAID Y PRIORDY**

**Nos Fercher 26 Ebrill 2017 yn y Festri am 7**

***Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid eu trafod, yna rhowch wybod i'r Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd***
***os gwelwch yn dda***

**CWRDD EGLWYS**
**BORE SUL – 30 EBRILL – WEDI'R OEDFA**
**Y PRIF FATER DAN SYLW – YR ORGAN**

## PIGION O GOFNODION CYFARFOD CYTÛN
## CAPEL Y WESLEAID
## *Nos Lun, 27 Chwefror 2017*

**NADOLIG Y STORI**
Bu'n llwyddiannus, a phenderfynodd y pwyllgor llywio ei gynnal eleni eto.

**WYTHNOS WEDDI AM UNDOD EGLWYSIG**
Bu'r cyfarfod nos Sul, 15 Ionawr, yn eglwys San Pedr, yn ardderchog, er nad oedd cynrychiolwyr o nifer o eglwysi; mynychodd mwy nag arfer y cyfarfodydd dyddiol yng Nghapel y Wesleaid, a buont yn llwyddiannus

**CYFARFOD GYDA'R GYMUNED FWSLEMAIDD**
Cyfarfu Martin Dalling a Peter Cutts â chynrychiolwyr o'r gymuned, a gwelwyd bod y ddwy ochr yn dymuno codi pontydd. Roedd gan y Mwslemiaid ddiddordeb mawr yng nghynllun Dechrau Newydd y Bedyddwyr Saesneg

**OEDFA DDWYIEITHOG WYTHNOS CYMORTH CRISTNOGOL**
Cynhelir ar 14 Mai, am 5.00pm, yn Heol Awst, gydag Ainsley Griffiths yn pregethu yn y Gymraeg, a darperir cyfieithiad i'r Saesneg

**TAITH GERDDED GWENER Y GROGLITH 2017**
Ni ddaeth cymaint o bobl y llynedd. Ychydig iawn o bobl a gymerodd sylw ohonom. Nid oedd yn amlwg iddynt beth oeddem yn ei wneud. Awgrymwyd fod gwahanol eglwysi yn gyfrifol am ddarlleniadau dramatig. Trafodwyd amser y daith hefyd, a theimlwyd mai hanner dydd oedd yn debyg o fod orau. Bydd y Gweinidogion yn trafod y mater yn eu cyfarfod nesaf.

**BWNDEL BABANOD PLANT DEWI**:
Mae'r cynllun hwn yn ceisio rhoi offer ac adnoddau i rieni i'w helpu â bywyd gyda baban newydd hyd at flwydd oed. Penderfynwyd ein bod yn anfon gwybodaeth i'r eglwysi ynglŷn â'r cynllun. Ar Nos Iau, 21 Medi, yn yr Halliwell, trefnir cyfarfod i glerigwyr i dynnu sylw at waith Plant Dewi yn gyffredinol

**CYNGERDD GAN Y GRŴP *SIMPLE FAITH***
Capel y Bedyddwyr Saesneg 7 Ebrill 2017, 7.00pm. Mynediad am ddim ond bydd plât casgliad

## DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Nos Lun, 5 Mehefin 2017 am 7 o'r gloch yng Nghapel y Bedyddwyr Saesneg

Llangain,
Caerfyrddin

Mawrth, 2017

Annwyl Ffrindiau

**DIOLCH YN FAWR**

Wedi dyddiau o brysurdeb rwy'n hynod falch i ddweud wrthych fod y casgliad y tu allan i Archfarchnad Tesco ddydd Gwener a'r Bore Coffi ddydd Sadwrn wedi bod yn llwyddiant mawr. Casglwyd y swm ardderchog o £535 y tu allan i Tesco a derbyniwyd £637 yn y Bore Coffi yn Festri Eglwys y Bedyddwyr Saesneg gyda £112 hefyd o werthiant nwyddau Masnach Deg.

Dyw'r fath ymateb ddim ond yn bosib drwy'r hyn a wneir gan nifer o bobl ymroddedig o eglwysi'r dref a derbyniwch fy niolch personol am eich cydweithrediad parod.

Wrth edrych ymlaen, bydd **Wythnos Cymorth Cristnogol eleni rhwng 14 a 20 Medi.** Os gwelwch yn dda, a fyddech mor garedig â gofyn i aelodau'ch eglwys ystyried cynorthwyo mewn gwahanol ffyrdd. Mae casgliadau o dŷ i dŷ yn werthfawr iawn ac yna ar y **Ddydd Mercher, 17 Mai** bydd casgliad yn ôl yr arfer yn y dref. Hefyd, gofynnaf i chi alw yn Swyddfa Cymorth Cristnogol i gasglu'r defnyddiau ar gyfer eich eglwys. I unrhyw un na fedr wneud hyn, gellir trefnu i'w dosbarthu o ddiwedd Ebrill.

Bydd cyfraniadau at Apêl Newyn Dwyrain Affrica'n dderbyniol iawn trwy fynd â'ch rhoddion at y Parchedig Tom Defis yn Swyddfa Cymorth Cristnogol, Heol Dŵr.

.

Gyda llawer o ddiolch i bawb

Yn ddiffuant

Jean Baker




**CRISTION**




**Cyhoeddir pob deufis gan bwyllgor aml-enwad o eglwysi Anghydffurfiol ac Anglicanaidd.**

**Mae'n cynnwys erthyglau ar destunau Cristnogol yng Nghymru, eitemau newyddion, adolygiadau o lyfrau, llythyron a chystadlaethau.**

**Pris: £1.50**

**Am gopi – cysylltwch â Sulwyn Thomas**

# ‘MOR HAPUS YW…’!!

Cafodd Diwrnod Rhyngwladol Hapusrwydd ei ddathlu o gwmpas y byd ar 20 Mawrth 2017. Ar yr un dydd cyhoeddwyd Adroddiad Hapusrwydd Rhyngwladol 2017 – y pumed i ymddangos er 2012. Rhwydwaith Datrysiadau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig sy’n gyfrifol amdano. Mae’r adroddiad yn gosod 155 o wledydd yn ôl lefel eu hapusrwydd.




Caiff yr adroddiad ei gynhyrchu drwy greu sgorau cyfartalog yn seiliedig ar chwe ardal ar gyfer pob gwlad: incwm, disgwyliad einioes, cynhaliaeth gymdeithasol, haelioni, rhyddid ac ymddiriedaeth. Arbenigwyr yn y gwahanol feysydd sy’n gyfrifol amdano a holir 1,000 o bobl o bob gwlad.

Norwy ddaeth i’r brig y tro hwn (er gwaethaf y gostyngiad ym mhris olew!). Yna’n dynn ar ei sawdl roedd Denmarc, Gwlad yr Iâ a’r Swistir. Wedyn daeth y Ffindir, yr Iseldiroedd, Canada, Seland Newydd ac yna Awstralia a Sweden yn rhannu’r nawfed safle.

Mae’r adroddiad yn awgrymu bod mwy i hapusrwydd nag arian. Dengys llawer o’r astudiaethau nad yw incwm ychwanegol, unwaith mae anghenion sylfaenol pobl wedi’u diwallu, o anghenraid yn llwybr i hapusrwydd.



Mae arwyddion o lithro yn safle hapusrwydd yr Unol Daleithiau eleni. Ac ymhlith y cenhedloedd mwyaf anhapus yn y byd mae Affganistan, Tsiad. Gweriniaeth y Congo a Haiti.



Ymhlith y gwledydd sydd wedi cynyddu mewn hapusrwydd mae’r Camerŵn, Latfia, Nicaragwa a Sierra Leone.

A ble mae’r Deyrnas Unedig yn hyn oll, meddech chi? Wel, yn y pedwerydd safle ar bymtheg. Bu peth cynnydd er y llynedd ond,

fel y nodwyd ar adroddiad ysgol sawl un ohonom yn y gorffennol, mae'n siŵr – *Nid da lle gellir gwell!*

Bydd nifer, o bosib yn cwestiynu gwerth ymarfer fel hwn – ond mae yna bwynt iddo.  Does bosib fod angen gwybod pa mor hapus yw pobl lawn gymaint â sut mae'r economi'n dod yn ei flaen!

Mae adroddiad fel hwn yn dangos i ni hefyd fel mae safleoedd gwledydd yn gallu codi a gostwng dros amser. Nid yw hapusrwydd yn y gwahanol wledydd yn parhau bob amser, gwaetha'r modd.  Yn wir, mewn rhai achosion, mae i fyny ac i lawr fel y ffigar-êt!

Hawdd dychmygu fod pob un ohonom yn ysu i fod yn hapus ac yn dymuno hefyd i'r hapusrwydd hwnnw barhau am byth! Yn anffodus, yn ôl y Beibl, nid yw pwyso ar feini prawf fel rhai'r Adroddiad Hapusrwydd yn ddigonol i wireddu hynny.  I gyflawni'r nod rhaid mynd heibio'r allanolion hyn a chanfod y llawenydd mewnol hwnnw sy'n dod drwy'n perthynas â Duw yn Iesu. Dyma'r allwedd i ni gynyddu'n hapusrwydd personol a hapusrwydd pobl o'n cwmpas.  Wrth brofi'r llawenydd unigryw hwnnw y mae gobaith i ni ddod yn genhedloedd a phobl 'wirioneddol hapus' a pharhau felly.



**NOSON AGOR Y GAIR**
**CYFARFOD AGORED - FESTRI'R PRIORDY**

**Nos Fercher, 17 Mai 17 am 7**

**Meleri Cray yn sôn am Gynllun Agor y Gair - sef mynd â Stori'r Beibl i ysgolion.**



**Mae 6 o aelodau'r Priordy wedi cytuno i fod yn rhan o'r cynllun, ac mae croeso i unrhyw un arall sydd â diddordeb i ymuno â ni ar y noson.**

# CENHADU

**Mae pobl Duw yn bobl sy'n cenhadu. Rhan o alwad a gwaith pob aelod mewn eglwys neu gapel yw cenhadu yn enw Crist. Cenhadu a dwyn tystiolaeth i Grist oedd prif waith Dewi, ein nawddsant, yn ei gyfnod yntau. Ac mae angen i ni heddiw barhau i geisio tynnu sylw cymaint o bobl yn ein cymuned ag y bo modd at bosibilrwydd y bywyd newydd yng Nghrist. Mae'r dulliau o genhadu'n ddirifedi yn ein dyddiau ni, diolch yn arbennig i wyrth technoleg a'r cyfryngau cymdeithasol. Pery lle o hyd hefyd i'r gair ysgrifenedig wrth i ni ymdrechu i gynorthwyo cylch helaethach o bobl i adnabod presenoldeb Duw a'r hyn a wna drosom.**

**Yn ddiweddar, derbyniodd y Priordy rodd gan aelod sy'n dymuno bod yn ddi-enw ar gyfer ymgyrch genhadu drwy gyfrwng Papur Priordy.**

**Y dymuniad yw ein bod yn gweithredu mewn dwy ffordd.**

**Yn gyntaf, drwy gynhyrchu mwy o gopïau o Bapur Priordy bob mis er mwyn gosod cyflenwad ohonynt mewn mannau strategol yn ein tref, er enghraifft ambell siop neu garej neu ganolfan. Byddai wedyn yn gyfle i bobl godi'r Papur pe baent yn dymuno.**

**Yn ail, drwy gynhyrchu Atodiad lliwgar i'r Papur i'w ddosbarthu o gwmpas tai mewn ardaloedd cyfagos i'r capel. Byddai'r Atodiad yn cynnwys gwybodaeth am y capel a'i weithgareddau a gwahoddiad i deuluoedd ymuno â ni os nad ydynt eisoes yn gysylltiedig â chapel neu eglwys arall. Byddai'r Atodiad hefyd yn cynnwys paragraff neu ddau (yn unig) yn Saesneg i esbonio i'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg pwy ydym a beth yw'n cenhadaeth. Byddent hefyd yn rhoi manylion cryno am gyfleoedd yn ein tref i ddysgu Cymraeg ac, er gwybodaeth, fannau addoli Saesneg. Rhagwelir ar hyn o bryd y byddai'r Atodiad yn cael ei gynhyrchu unwaith neu ddwywaith y flwyddyn**

**Rydym yn ddiolchgar iawn am y rhodd hon a fydd yn hwb i genhadaeth ein heglwys. Rhaid pwysleisio, fodd bynnag, nad yw'r rhodd yn disodli'r angen am noddwyr i gynnal Papur Priordy o fis i fis. Mae'n dyled yn fawr i'n noddwyr am eu haelioni a'u caredigrwydd dros y blynyddoedd ac mae'r nawdd yr un mor hanfodol ac allweddol heddiw. Yr hyn a wna'r rhodd yw'n galluogi i fynd y filltir ychwanegol ac arloesi mewn tiroedd newydd. Mae'n ein galluogi i fentro a symud allan yn enw Crist.**

**Bwriedir dechrau ar y cynllun hwn wedi'r Pasg a hyderwn y byddwch yn gefnogol i'r fenter a'ch bod yn ymuno â ni yn ein diolch am y rhodd arbennig o hael a defnyddiol hon.**



NOSON GAWL GŴYL DEWI

# Croeso i dudalen Ieuenctid@Priordy

**PIP ar Daith**

Cafwyd bore cofiadwy iawn ym Mhencadlys yr Heddlu yn Llangynnwr.

Mae adroddiad llawn gan Steffan mewn man arall yn y papur hwn ynghyd â llun. Diolch i bawb a ddaeth.




**Sul y Blodau**

Oedfa Deulu gyda'r plant, y bobol ifanc a'r band am 10 o'r gloch. Ymunwch â ni i gychwyn paratoi ar gyfer Y Pasg.

**Gwener y Groglith**



Rydym wedi trefnu taith gerdded i ben Bryn Myrddin brynhawn dydd Gwener y Groglith (Ebrill 14) ar gyfer y teulu i gyd. Os ydych yn rhydd y prynhawn hwnnw, dewch i ymuno â ni. Gadael maes parcio Canolfan Bryn Myrddin am 2.30. Paned a diod ar ôl dod 'nôl i lawr.



**Bore Sul Y Pasg**
Oedfa i'r Teulu cyfan am 10 o'r gloch. HELFA WYAU yn y festri ar gyfer y plant!

**Offerynwyr**
Rydym yn chwilio am offerynwyr a fyddai â diddordeb i ymuno â band Y Priordy.



Yr unig amod dros ymuno yw eich bod wedi cyrraedd y man y gallaf ddanfon emyn atoch rai dyddiau ynghynt a'ch bod yn gallu'i chwarae! Hynny yw, does gan y band ddim amser i ymarfer! Cysylltwch â fi os oes gennych ddiddordeb.

**Calendr y Mis**

Ebrill 2 - Ysgol Sul a PIP
Ebrill 9 - Oedfa blant a phobl Ifanc Sul y Blodau
Ebrill 16 - Sul y Pasg. Oedfa i bawb a helfa wyau
Ebrill 23 - Dim Ysgol Sul - gwyliau Pasg
Ebrill 30 - Ysgol Sul

**Twdlw am y tro!**
**Beti-Wyn**



# NOSON GAWL GŴYL DEWI















# NOSON GAWL
# GŴYL DEWI'R PRIORDY

***NOS LUN***, 6 Mawrth oedd y dyddiad, ac roedd hi'n amser i noson sydd wedi dod yn un o draddodiadau'r Priordy erbyn hyn – Noson Gawl Gŵyl Dewi yn y festri dan ofal y dynion.

Daeth nifer dda ynghyd, gan gynnwys rhai o'n cyfeillion o Fancyfelin, a dechreuwyd trwy ganu gyda'n gilydd *O Dad, yn deulu dedwydd* (ar Troyte's Chant) *…* a gair bach o groeso gan Beti-Wyn.



Trosglwyddwyd gweddill y noson i ddwylo medrus y dynion, a gweiniwyd y cawl. Cafwyd danteithion melys i ddilyn a phaned da a digon o bopeth i'n bodloni. Rhaid dweud fan hyn bod Philip Jones unwaith eto wedi gwisgo mewn steil, ac yn haeddu'i ganmol yn fawr, ond – gwyliwch, Philip – mae amryw fel pe baent yn cystadlu erbyn hyn am yr anrhydedd o gael eu henwi yn y Papur! Cawn weld beth ddaw y flwyddyn nesaf. Diolchwn yma i Gill Owens am ddarparu blodau hardd i'r byrddau. Da gweld David Lloyd yn ôl yn ein plith hefyd, ac yn barod i ymgymryd â'i waith fel Trysorydd y Gymdeithas.



Ar ôl swper, roedd yr orig ddifyr o adloniant yn nwylo medrus Peter Hughes Griffiths, gyda help Meinir. Da iawn i Tudur Dylan Jones, Beti-Wyn James, Sulwyn Thomas ac Alun Charles am gyflwyno darnau byr o'u gwaith, i Gareth Gravelle am ei ymdrech fuddugol nodedig yng Nghystadleuaeth y Limerig ac i Meinir am ein swyno gyda'i hunawd.

Roedd hefyd ambell gân fach i bawb eu canu, a chwis a'n profodd ar ein gwybodaeth am y Priordy. Gwnaethpwyd y cwbl yn hwyliog iawn, a mynegodd Beti-Wyn ein diolch ar y diwedd.

A diolch i'r canlynol am eu sylwadau caredig:

***Glenys Thomas***
Noson hwyliog a bywiog

***Huw a Rhyswen Michael***
Noson fendigedig. Bwyd da, cwmni da, a digon o adloniant amrywiol o'r radd uchaf! O N A allwn ni gael rôls o Lidl y flwyddyn nesaf plis? Diolch

***Rhian Jones***
Noson fendigedig, llawn hwyl a sbri a bwyd blasus iawn.

***Malcolm ac Eurwen Jones***
Campwaith o noson! Gwnaethom y 'pethau bychain' mawr.

***Joanne Richards***
Bola'n llawn. Mwynhau'r canu a'r storïau.



***Eira Jenkins***
Joio! Joio! Joio!

**THEATR GEN BYW AIL-DDANGOSIAD**
**MACBETH**
***(gydag is-deitlau Saesneg)***




**Theatr Mwldan, Aberteifi**
**Nos Fercher 19 Ebrill – 7.30**

**☎01239 621200**

**AR Y WE: www. priordy.org *(yn cynnwys Papur Priordy)***

# Y PASG 2017

| Y TABERNACL, CAERFYRDDIN | |
|---|---|
| **NOS IAU CABLYD**<br>*13 Ebrill 2017*<br>*7.00pm*<br>**OEDFA GYMUN**<br>**Y PARCHEDIG**<br>**PETER CUTTS**<br>**Caerfyrddin** | **DYDD GWENER Y GROGLITH**<br>*14 Ebrill 2017*<br>*10.00am (yn unig)*<br>*OEDFA BREGETHU*<br>*Y PARCHEDIG*<br>*PETER DEWI RICHARDS*<br>**Caerdydd** |
| **TAITH GERDDED Y PASG - CYTÛN**<br>*Dydd Gwener 14 Ebrill - 12 o'r gloch gan ddechrau o'r Capel Wesle lle bydd paned ar gael ymlaen llaw* | |

## PERERINDOD PRYNHAWN
## GWENER Y GROGLITH
## I BEN BRYN MYRDDIN



**Gadael Maes Parcio Canolfan Bryn Myrddin am 2.30 o'r gloch**

**Cerdded, gan gario'r Groes i ben y bryn.**

**Darlleniad, gweddi ac emyn ar y copa.**

**Cerdded i lawr y bryn a mwynhau paned gyda'n gilydd yng Nghanolfan Bryn Myrddin**

**Y daith yn serth mewn mannau. Angen esgidiau cerdded a dillad synhwyrol.**

**Os nad ydych ym dymuno cerdded i ben y bryn, mae croeso i chi ymuno â ni am baned yn y Ganolfan tua 4 o'r gloch.**

## BORE SUL Y PASG

**Oedfa Gymun Undebol i'r Ofalaeth am 10 yn Y Priordy gyda Beti-Wyn ac eraill.**



## PRYNHAWN SUL Y PASG

**Gorymdaith Y Pasg drwy bentref Bancyfelin yn cychwyn am 2.30 (sylwch ar y newid amser). Oedfa fer, paned a byns y grôg yn y Capel ar ddiwedd y daith. Croeso i bawb o bob oed**

.

## GWASANAETH PASG CARTREF PLAS Y DDERWEN

**Bore Gwener – 7 Ebrill 2017 – 11 o'r gloch**
***gyda'n***
**Gweinidog**



BYW Y BEIBL

# BLWYDDYN BYW Y BEIBL

# DARLLENIADAU EBRILL

BYW Y BEIBL

| Wythnos 1 | Salm 130 |
|---|---|
| | |
| Wythnos 2 Sul y Blodau | Mathew 21: 1-11 |
| Yr Wythnos Fawr Llun | Ioan 12: 1-11 |
| Yr Wythnos Fawr Mawrth | Ioan 12: 20-36 |
| Yr Wythnos Fawr Mercher | Ioan 13: 21-32 |
| Yr Wythnos Fawr Iau Cablyd | Ioan 13: 1-17; 31b-35 |
| Gwener y Groglith | Ioan 18: 1-19, 42 |
| Sadwrn – Noswyl y Pasg | Mathew 27: 57-66 |
| Sul y Pasg | Mathew 28: 1-10 |

**CYNLLUN Y FFORDD**
**UNDEB YR ANNIBYNWYR CYMRAEG**




**Nos Fercher 24 Mai 2017**
**Festri Heol Awst**

***Cyfarfod cychwynnol i gyflwyno'r cynllun i gapeli Dosbarth Myrddin yng Nghyfundeb Gorllewin Caerfyrddin. Croeso cynnes i bawb.***

**ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PRIORDY - 2016**

**Cyhoeddwyd yr Adroddiad Blynyddol a phawb, mae'n siŵr, wedi derbyn copi erbyn hyn. Mae'n diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd at yr adroddiad ym mhob ffordd ac yn arbennig i Huw Ll Edwards, ein Hysgrifennydd Ariannol, am lywio'r cyfan drwy'r wasg.**

## ATEBION CWIS MIS MAWRTH - ADNABOD EICH BEIBL.NET!

*Yn seiliedig ar Salmau 23, 34, 42, 121*

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | D | R | O | S | O | CH | |
| 2 | E | D | R | Y | CH | | |
| 3 | W | E | D | I | | | |
| 4 | I | S | E | L | | | |
| | | | | | | | |
| 5 | S | Y | CH | E | D | | |
| 6 | A | M | D | A | N | A | T |
| 7 | N | E | W | Y | DD | | |
| 8 | T | Y | W | A | LL | T | |

**David Lewis…**



# MALTA
## *Perl Môr y Canoldir*

Roeddwn wedi ymweld â Malta rhyw bum mlynedd ar hugain yn ôl ond hyfryd oedd dychwelyd eto ym mis Ionawr eleni a gweld llu o newidiadau ar draws yr ynys. Cyn mynd deuthum o hyd i lyfryn a oedd newydd ei gyhoeddi gan y Parchedig Mike Sheppard gynt yn weinidog ar Gapel y Babell ym Mhensarn a Chapel y Bedyddwyr Saesneg, Heol Awst, a dyma'r teitl *Maltese Pilgrimage 2016 – A Lenten Study Documen*t'.

Pwrpas Mike oedd cerdded o gwmpas y tair ynys, sef Malta, Gozo a Comino a hynny gan ddilyn yr arfordir hyd y gellir – taith o ryw 200 milltir yn gyfan gwbl. Tybiodd y byddai'r daith yn cymryd rhyw saith niwrnod ond mewn gwirionedd fe gymerodd un ar ddeg o ddyddiau gan fod llawer o'r tir mewn dwylo preifat ac arwyddion 'Cadw Allan' i'w gweld hwnt ac yma. Y perygl o dramgwyddo, meddai, oedd wynebu cŵn ffyrnig o bryd i'w gilydd. Wrth ddarllen am y profiad meddyliais mor ffodus rydym yng Nghymru o gael ffordd arfordirol hyfryd sy'n agored i'r cyhoedd a lle mae yna ddigon o arwyddion ar hyd y daith.

Mae Malta'n ynys gymharol fach – ychydig yn fwy nag Ynys Môn ond cynhwysa'r Weriniaeth ddwy ynys arall, sef Gozo a Comino ond mae'r olaf yn fechan iawn a heb boblogaeth arni.




**HANES A DIWYLLIANT**

Saif yr ynys yng nghanol Môr y Canoldir rhyw gan milltir o'r tir agosaf sef Sisili sy'n rhan o'r Eidal erbyn hyn. Mae yna hanes arbennig iawn i'r ynys yn ymestyn yn ôl dros saith mil o flynyddoedd. Y trigolion cyntaf, mae'n debyg,oedd y Ffoenisiaid a ymfudodd o ardal Libanus a Lybia yn wreiddiol ac yna'r Rhufeiniaid, y Carthagiaid ac wedyn am ryw dri chan mlynedd Marchogion Sant Ioan a reolodd yr Ynys tan ddyfodiad Napoleon. Wedi hyn, wrth gwrs, daeth y Prydeinwyr ac ymsefydlu eu Llynges yn yr Harbwr dwfn ysblennydd lle saif y brifddinas – Faleta –

heddiw.  Mae olion y cyfnodau hyn yn eu hanes i'w gweld yn glir ar draws yr ynysoedd, gan gynnwys y cestyll a'r eglwysi yn ogystal â 'r ieithoedd a siaredir sy'n cynnwys Saesneg a Malti'n bennaf a dyma'r ddwy iaith mae'n rhaid eu hastudio yn yr ysgolion.  Efallai mai'r cyfnod a ddylanwadodd fwyaf ar hanes Malta oedd teyrnasiad Marchogion Sant Ioan -  1530 hyd 1798.  Yn y cyfnod hwn digwyddodd yr ymosodiad ar yr ynys gan y Twrciaid ym 1565 a bu dan warchae o fis Mai tan 8 Medi.  Dros y cyfnod hwn bu colledion erchyll ar y ddwy ochr.  Barnwyd i'r Twrciaid golli rhyw 80,000 o filwyr a bod yr ynys wedi colli rhyw 7,000 o'i brodorion.  Bu'r brwydro'n greulon ac yn ddigyfaddawd ond yn y diwedd, oherwydd y tywydd a'r prinder bwyd, rhaid oedd i'r Twrciaid gilio o'r ynys a hwylio'n ôl i Istanbwl.  Roedd y fuddugoliaeth hon yn bwysig i Ewrop gyfan ac ni fu ymgais gan y Twrciaid wedi hyn i ymyrryd ymhellach yn y rhan hon o Fôr y Canoldir. Os ydych am wybodaeth bellach am yr hanes hwn gallaf argymell y llyfr canlynol sy'n ddarllenadwy dros ben – *The Great Siege – Malta, 1565* gan Ernie Bradford.

Fel y crybwyllwyd eisoes mae digon o leoedd i'w gweld mewn ynys mor hanesyddol ond efallai mai'r lle gorau i ddechrau ynddo yw'r brifddinas ei hun.



**FALETA**
Mae'r ddinas yn gymharol fach (tan 6,000 o boblogaeth) ac wedi'I sefydlu ar benrhyn gyda harbwr dwfn a defnyddiol iawn o'i hamgylch. Sefydlwyd y ddinas gan Farchogion Sant Ioan yn y 15fed ganrif a heddiw gwelir llawer o amgueddfeydd, palasau ac adeiladau Baroque, gan gynnwys  Eglwys Gadeiriol Sant Ioan lle gwelir un o gampweithiau'r arlunydd Caravaggio 'Pendoriad Sant Ioan'. Saif y darlun anferth hwn uwchben yr allor ysblennydd. Amhosibl fyddai rhestru'r holl gyfoeth o adeiladau a welir yn Faleta ond yr hyn a erys yn y cof yn bennaf efallai yw'r harbwr gyda'r llu o gadarnleoedd a chestyll a geir o'i gwmpas.  Yma yn ogystal ceir y Llyfrgell Genedlaethol lle gwelir y ddogfen wreiddiol o rodd yr ynys i Farchogion Sant Ioan gan Frenin Sbaen yn y 15fed ganrif.  Yn sicr Faleta, ynghyd â'r

harbwr anferth, yw un o brif atyniadau Malta ond mae cyfoeth o leoedd diddorol eraill i'w canfod ar draws yr ynys.

**MOSTA**

Yng nghanol yr ynys saif tref Mosta gyda'i heglwys Gatholig enfawr yn gysegredig i'r Forwyn Fair – mae'n enwog wrth gwrs gan i'r Eglwys gael ei choroni gyda'r Rotunda mwyaf yn y byd ar ôl San Pedr yn Rhufain a Sant Paul yn Llundain. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd disgynnodd bom drwy do'r Rotunda ond ni ffrwydrodd ac felly achubwyd rhyw 300 o'r aelodau a oedd yn cysgodi o fewn yr eglwys. Mae gwasanaeth bob blwyddyn i ddiolch am eu hachub fel hyn a disgrifir yr achlysur fel digwyddiad gwyrthiol yn hanes yr eglwys.



**GOZO**

Dyma'r ail ynys a berthyn i Malta ac mae iddi rhyw 30,000 o boblogaeth. Yma, yn ôl y chwedl, y daliwyd Odysseus gan y dduwies Calypso am saith mlynedd ar y daith yn ôl i'w gartref yn Ithaca ar ôl dymchweliad Caerdroia. Ar yr ynys gwelir temlau Megalithig gyda meini sy'n pwyso dros 50 tunnell. Maent yn hŷn na Chôr y Cewri. Yr enw a roddir ar y temlau hyn yw Ggantija sy'n hannu o'r gair Malti am gawr. Rhestrir fel un o safleoedd treftadaeth arbennig gan UNESCO.



**COMINO**

Ynys fechan yw hon a leolir rhwng Malta a Gozo. Yn y gorffennol fe'i defnyddiwyd i amddiffyn yr ynysoedd eraill rhag gelynion. Heddiw, mae ymwelwyr yn mynd yno i geisio tawelwch a mwynhau'r bywyd naturiol. Ni chaniateir moduron yno ac mae un gwesty ar gael. Mae Bae Comino'n enwog am y dyfroedd glaswyrdd a elwir yn *Blue Lagoon*.




**HANES DIWEDDAR**

Bu Prydain yn rheoli Malta o 1800 tan 1964 pan gafodd yr ynys ei hannibyniaeth – yn gyntaf o fewn y Gymanwlad ac yna ym 1974 fel Gweriniaeth lawn. Mae olion y Prydeinwyr i'w cael o hyd – yn y gyfundrefn addysg, yn y llysoedd barn a'r gyfraith yn gyffredinol a hefyd drwy bresenoldeb yr iaith Saesneg a siaredir gan bron pawb ar yr ynys ynghyd â'r iaith frodorol, Malti. Mae symbolau'r cyfnod hwn i'w gweld hefyd yn y cerfluniau o'r Frenhines Fictoria a Winston Churchill a rhaid cofio wrth gwrs i'r ynys ennill y George Cross wedi'r bomio didrugaredd a ddigwyddodd yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Mae yna eironi yn y ffaith mai'r ynys fechan hon sydd eleni'n llywyddu'r Undeb Ewropeaidd ac mae Faleta a ddewiswyd i fod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop yn 2018.

Yn sicr, mae'r ynys yn werth ymweld â hi, yn arbennig o ran hanes a diwylliant o'r cyfnodau cynnar hyd heddiw. Mae'r tywydd hefyd yn hyfryd iawn yng Nghanol Môr y Canoldir. Buaswn felly yn eich annog i fynd yno i fwynhau a gwerthfawrogi'r holl drysorau a geir yn yr ynysoedd hyfryd hyn.



# DRWS AGORED

**TYMOR 2016-2017**

***BORE IAU 13 Ebrill 2017***

**Festri'r Priordy**

***Paned a Bisgedi am 10.30 / Myfyrdod Byr am 11***


***Croeso cynnes i bawb o bob capel ac eglwys***

**CASGLIAD AT GOLEG YR ANNIBYNWYR**

**Casglwyd £82 at y Coleg a diolchwn I bawb a gyfrannodd ac i Adrian Evans, ein Trysorydd, am ofalu am y cyfrifon.**

# BLYCHAU YN Y CYNTEDD







**COFIWCH AM Y BLWCH STAMPIAU A'R BLWCH CETRYS A'R BLWCH POTELI PLASTIG YN Y CYNTEDD**



**Beth am droi at cyfundeb.com?**
**Gwefan Cyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin**

**CYMDEITHAS Y CYMOD**
**CELL CAERFYRDDIN**

**Nos Lun 8 Mai 2017 – 7.30**
**Festri'r Tabernacl**

**AWDLAU HEDDWCH O HEDD WYN HYD HEDDIW**



Beth am droi at
Wefan yr Undeb?
www.annibynwyr.org

**TÎM Y PRIORDY YN CYMRYD RHAN YN Y TALWRN**
*Mae'r cynnyrch yn y rhifyn hwn*



**BORE COFFI CYMORTH CRISTNOGOL**
*Y Priordy'n gofalu am y Stondin Gacennau*



I
gadw

# TALWRN Y BEIRDD

***Nos Wener, 4 Mawrth 2016***

***Canolfan Gymdeithasol Clwb Pêl-droed Tref Caerfyrddin***

Cynhaliwyd y Talwrn fel rhan o weithgareddau Dathlu Ein Cymreictod - Gŵyl Ddewi Caerfyrddin 2017. Hefyd, roedd yn gyfle i ddathlu pen-blwydd yr Ysgol farddol yn 25 oed. Roedd y Ganolfan yn llawn a chafwyd noson ardderchog fel bob amser.

Roedd pedwar tîm yn cymryd rhan, sef Tîm Rhydlewis / Ffostrasol, Tîm y Priordy a dau dîm yn cynrychioli'r Ysgol Farddol. Bu'n gystadleuaeth lem ac er na ddaeth y Priordy i'r brig y tro hwn fel y llynedd, gwnaeth y tîm yn dda iawn, Y ddau Feuryn oedd Tudur Dylan Jones a Mererid Hopwood

A dyma gynnyrch y Priordy i chi gael ei fwynhau a diolch i'r beirdd amdanynt, sef Beti-Wyn James, Aled Evans, Elinor Wyn Reynolds a Peter Hughes Griffiths.

**Cywydd heb fod dros 18 llinell ar y testun: Syched.**

Fel rhan o siew Gŵyl Dewi
ein bro wâr, es ar y sbri
a chwrdd yn y dref fach hon
hen wariyrs o lenorion;
yfant ac yfant fel ych
dwy faril diod fawrwych
a jawl naw potel o gin -
'na feirdd sydd yng Nghaerfyrddin.
Ac yna aeth hi'n gynnen,
yn hel sws a thaflu sen -
addo'i ddwrn i Dafydd Êl
wnaeth Pît ar ôl wyth potel,
boitu whech trodd Beti Wyn
yn sili 'da fe Sulwyn,
a'n llawn swae y mae'n eu mysg
stŵr Cyfarwyddwr Addysg.
Wedi hyn rwy'n credu af
i dre' neisach dro nesaf.

**Aled Evans**

**Englyn: yn cynnwys y gair 'bychan', 'bychain' neu 'fechan'.**

**Cefn Sidan**



Os ydyw traeth Cefn Sidan yn unig
a'i donnau yn fudan,
yno mae, mewn tywod mân,
yn wych, ôl siwrne fechan.

**Aled Evans**

**Ymson: 'Mewn Sach Liain a Lludw'**



Gwranda, mae gen i fol i'w fwrw,
mae'r bwrlwm yn fy mrest yn ferw
a daw chwydfa'r geiriau chwerw
i daro'r glust fel bustl a bwrw'n
bwerus ar ffenest y galon friw
yn daer am mai'r gwir yw
'mod i'n rong, yn adyn gwaeth na'r gwdihŵ,
yn bell o'm lle yn arw.
Mae gan y gwir frath fel gwayw
ac yma'r wyf mewn sachliain a lludw.

**Elinor Wyn Reynolds**

**Cwpled: yn un o dafodieithoedd Cymru (gorau po fwyaf o eiriau tafodieithol a ddefnyddir).**

Mae honco manco'n mencyd
Raca hir y wraic o hyd

**Beti-Wyn**

**Limrig i gynnwys y llinell: Pan gwrddais â Dewi 'Nglyn Rhosyn.**



Pan gwrddais â Dewi 'Nghlyn Rhosyn
pob mynach oedd 'n sibrwd ei emyn
heblaw am un gŵr
a fynnai greu stŵr,
a'i enw, neb llai na'r Brawd Sulwyn!

**Beti-Wyn**

**Cân ar y testun: Y Tîm.**



TÎM ARLYWYDDOL CAERFYRDDIN

Mae'n lecshwn fis Mai yn nhre Cyfyrddin,
Bydd hon yn lecshwn go anghyffredin,
Dim rhagor o ddwli – Y Maer a'i tseine –
Arlywydd a'i dîm fydd yn rhedeg pethe.
A mynd am y job mae gweinidog Priordy,
Cau lawr 'Cownti Hól' - Hwre i hynny!
Ripyblicanod, dibechaduriaid
Yn rhedeg popeth – sdim ishe clymblaid!
Diaconied capeli a gaiff yr holl jobsis
A Sulwyn i ddelio a datrys pob creisis,
A'r bont dros y Tywi? Cnocio'i lawr yn bentwr
Er mwyn cadw draw'r bobl od o Langynnwr!
Alun Charles godith wal tu fas i Drefechan
I gadw yr 'hambons' o'r wlad 'na allan.
Wal fawr fydd hon - deg troedfedd a whech
I stopo'r ymfudwyr bach cas o Drelech.
A Jeff yn Weinidog y cŵn a'r cathod –
Mae ganddo gynllun sy' braidd yn hynod
I rwystro pob ci rhag y baeddu mochynedd -
Stico lan ei bart ôl - corcyn tair modfedd.
Peter Cutts yng ngofal 'rysbyty draw fanco,
Bwrw lawr Hafod Cwnin fel bo lle i barco!
Bydd popeth yn iawn, 'ma pawb yn arfer
Edrych lan yn neis ar Peter bob amser.
Ac mae angen Gweinidog sy'n dod yn gynnar
I gyfarfodydd, a byth yn ddiweddar!
Wel, dim ond un person sy wastad yn selog
Ac yno yn gynnar – a hwnnw? - Tom Talog!

Na'r tîm 'te yn llawn – a wi'n folon beto
Bydd y dre yn 'GRÊT' 'da rhain unwaith eto.

**Peter Hughes Griffiths**

## GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS

| EBRILL | | MAI | |
|---|---|---|---|
| Gofalwr | Gwresogwr | Gofalwr | Gwresogwr |
| Alun Charles | Wyn Evans | Sulwyn Thomas | |

## BLODAU

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ebrill | 2<br>16<br>30 | Heledd Tomos<br>Meinir H Griffiths<br>Eleri Thomas | Mai | 14<br>28 | June Thomas<br>Mair Baston |

## PARATOI'R BWRDD CYMUN

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ebrill | 16 | Bore | Catrin Heledd Jones a Jayne Jones |
| Mai | 7 | Bore | Margaret Lloyd-Evans ac Eirlys Davies |


## YMWELWYR

| | |
|---|---|
| Mawrth / Ebrill | Rhian ac Eirlys Jones.  Henry a Bronwen Wilkins |
| Mai / Mehefin | Glenys Thomas, Eira Phillips ac Eira Jenkins |

| DARLLENWYR EBRILL / MAI 2017 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ebrill | 2 | Mari Jenkins | Mai | 7 | Dr Myfanwy Jones |
| | 9 | | | 14 | |
| | 16 | Chris Lloyd | | 21 | Alison Parsons |
| | 23 | Sulwyn Thomas | | 28 | Peter Hughes Grtiffiths |
| | 30 | Dr Llinos Williams | | | |

**DIOLCH YN FAWR**

Diolch i Beti-Wyn a Philip, Tudur Dylan Jones a Meinir Loader am y lluniau'r mis hwn



**Y TYST**
**50c y rhifyn!**
**Cysyllter â Sulwyn Thomas**



# RHWYDWAITH

***DA GENNYM*** agor y Rhwydwaith gyda newyddion am faban newydd. Daeth Annabelle Carys i'r byd ar 18 Mawrth yn blentyn cyntaf i Siân a James Fox yn Ysbyty Chelsea a Westminster, ac yn wyres i Huw a Rhyswen Michael, Llys Picton. Pob bendith ar y teulu bach, sy'n byw yn Clapham, Llundain, a chyfarchion oddi wrth bawb yn y Priordy.



Da gennym groesawu aelodau newydd unwaith eto'r mis hwn. Derbyniwyd Dennis a Rhian Jones yn aelodau fore Sul 5 Mawrth ac mae'n dda cael eu cwmni yng ngwahanol weithgareddau'r eglwys. Dymunwn yn dda iddynt hefyd yn eu cartref newydd yng Nghwmffrwd, wedi ymddeol o Sir Amwythig.

Deallwn fod amryw wedi cael sylw meddygol yn ddiweddar, tri gyda'u llygaid, sef Gwilym Jones, David Lloyd a Heather Williams. Da gweld eu bod eisoes yn ôl yn ein plith. Ein cofion hefyd at Walford Davies, Clydach, sef tad Beti-Wyn, a dorrodd ei benelin ar ôl cwympo yn ddiweddar iawn ac sy'n derbyn triniaeth.



Os gwelsoch y rhaglen **Dewch Gyda Fi** (sy'n seiliedig ar Stori'r **Pibydd Brith o Hamelin**) ar **S4C** ychydig yn ôl, efallai y byddwch wedi sylwi mai'n Menna Elfyn ni oedd wedi addasu'r gwaith i'r Gymraeg. Cyflwynwyd darn o'i gwaith hefyd ar y rhaglen boblogaidd **Poetry Please** ar **Radio 4** yn ddiweddar. Yn ystod y gyfres **Côr Cymru** ar **S4C** yn ddiweddar, gwelwyd Elin Wyn James, Sara Llwyd James a Mared Owen yng **Nghôr Merched Sir Gâr**, ac Elin Llwyd yng **Nghôrdydd** – da iawn! Ac roedd Elin Wyn wedi arwain un o'r partïon canu yng nghyngerdd **Ysgol Bro Myrddin** gyda Huw Chiswell ddechrau mis Mawrth. Wedyn, mae Elin Llwyd wedi bod ar daith, y tro hwn i Rwanda lle bu hi'n dysgu canu i blant ac athrawon gyda'r elusen **World Voice** sy'n cael ei ariannu gan y **Cyngor Prydeinig**. A chi sy'n



hoffi'r dechnoleg fodern, byddwch yn gwerthfawrogi cyfraniad Beti-Wyn i raglen **Bwrw Golwg** ar **Radio Cymru** y Sul o'r blaen lle bu'n sôn am le'r cyfryngau cymdeithasol ym mywydau pobl heddiw. Ac, o ddiddordeb i ni yn y Priordy, ymddangosodd mab Gill a Danny Owens, sef Elfyn, gyda Rhiannon, ei wraig, ar raglen Roy Noble, **Y Cymoedd**.

***AC I GLOI,*** ein cyfarchion cynhesaf at Malcolm Jones, Heol Pentremeurig, un o ffrindiau triw'r Priordy, sydd wedi dathlu pen-blwydd arbennig ar 15 Mawrth. Da gweld Malcolm yn gwella'n dda erbyn hyn ar ôl ei driniaeth, a hyderwn fod y teulu wedi dathlu'r achlysur mewn modd teilwng!!

**Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Mai i'n**
**Gweinidog ☎ 01267 neu Tina Charles ☎ 01267 236037**

## CYDYMDEIMLAD

Drwg iawn gennym glywed bod Irene Williams, Tir Ysgawen, Llangynnwr, wedi colli'i chwaer, Menna Rolfe o Borth Tywyn, yn sydyn iawn ar Ddydd Gŵyl Dewi. Roedd yr angladd yn hollol breifat. Cydymdeimlwn yn gywir iawn ag Irene a'i chwaer Awen, a gweddill y teulu yn eu colled fawr.

## A WYDDECH CHI?

22 Mawrth yw'r dyddiad cynharaf posib ar gyfer Sul y Pasg (gan gymryd bod 'na leuad llawn wedi bod ar 21 Mawrth). 25 Ebrill yw'r dyddiad hwyraf ar gyfer Sul y Pasg. Yn y blynyddoedd diwetha' y Pasg cynharaf i ni ei gael oedd 'nôl yn 2008. Fe syrthiodd Sul y Pasg ar 23 Mawrth y flwyddyn honno. Does 'na'r un ohonom ni wedi byw i weld Pasg sy'n gynharach na hynny. 1818 oedd y tro diwethaf i Sul y Pasg fod mor gynnar â 22 Mawrth. Fydd hynny ddim yn digwydd eto tan y flwyddyn 2285! Efallai fod rhai o'n darllenwyr yn cofio Sul y Pasg 1943. Hwn oedd y tro diwethaf i'r Pasg fod ar ei hwyraf. Y tro nesaf fydd ymhen 21 mlynedd, yn 2038.

***BBC CYMRU FYW***

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ebrill** | **2** | *Bore*<br>*Hwyr* | Ein Gweinidog<br>Ein Gweinidog  Y Tabernacl yn ymuno â ni | |
| **Sul y Blodau** | **9** | *Bore*<br><br>*Hwyr* | Cwrdd Plant a Phobl Ifainc gyda'n Gweinidog<br>Yn ymuno â'r Tabernacl ar gyfer oedfa gyda'r Parchedig Peter Cutts | |
| **Sul y Pasg** | **16** | *Bore*<br><br>*P'nawn* | Cwrdd Undebol i'r Ofalaeth gyda'n Gweinidog yn y Priordy<br>Cwrdd Undebol i'r Ofalaeth gyda'n Gweinidog yn y Gymuned ym Mancyfelin am 2.30 | **Cymun** |
| | **23** | *Bore*<br>*P'nawn* | Y Parchedig Alwyn Daniels<br>Oedfa i'r Ofalaeth yng Nghana gyda'r Parchedig Alwyn Daniels | |
| | **30** | *Bore* | Ein Gweinidog<br>*Cwrdd Eglwys wedi'r oedfa* | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Mai** | **7** | *Bore*<br>*Hwyr* | Ein Gweinidog<br>Ein Gweinidog  Y Tabernacl yn ymuno â ni | **Cymun** |
| | **14** | *Bore*<br>*Hwyr* | Cwrdd Plant a Phobl Ifainc gyda'n<br>Oedfa Cymorth Cristnogol dan nawdd Cytûn yn Heol Awst am 5 gyda'r Parchedig Ddr Ainsley Griffiths | |
| | **21** | *Bore* | Ein Gweinidog | |
| | **28** | *Bore*<br>*P'nawn* | Dr Dai Lloyd<br>Oedfa i'r Ofalaeth yng Nghana gyda'r Dr Dai Lloyd | |

| **CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ✓ Ysgol Sul  CP : Cwrdd Plant  - Dim Ysgol Sul  HT – Hanner Tymor | | | | | | | | |
| **EBRILL** | | | | | **MAI** | | | |
| **2** | **9** | **16** | **23** | **30** | **7** | **14** | **21** | **28** |
| ✓ | **CP** | **-** | **-** | ✓ | ✓ | **CP** | ✓ | **HT** |

**Y GYMDEITHAS DDIWYLLIADOL**

**GLYNOG DAVIES**

**Nos Lun 3 Ebrill 2017 – 7 o'r gloch**
**Festri'r Priordy**

